

---

# Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad:

## **Cynigion ymgynghori ar gyfer 2022-23**

**Ionawr 2022**

---

# Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus Cymreig. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

## Aelodau'r Bwrdd

- Dr Elizabeth Haywood  
(Cadeirydd)
- Syr David Hanson
- Mike Redhouse
- Y Fonesig Jane Roberts
- Hugh Widdis

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

- Llinos Madeley, Clerc
- Ruth Hatton, Dirprwy Glerc

## Cysylltu â'r Bwrdd

**Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**  
**Senedd Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **Taliadau@Senedd.Cymru**

Mae copiau o'r Penderfyniad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

**Taliadau@Senedd.Cymru**

---

# Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad:

## **Cynigion ymgynghori ar gyfer 2022-23**

**Ionawr 2022**

---

# Cynnwys

Cynnwys .....	1
1. Adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23.....	8
2. Tâl Aelodau.....	10
3. Gwariant ar lety preswyl .....	12
4. Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.....	16
5. Cymorth Staffio.....	18
6. Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol.....	24
7. Materion eraill.....	27
8. Cydraddoldeb.....	30

# Sut i gyflwyno ymateb

Os hoffech gyflwyno ymateb i ymgynghoriad y Bwrdd Taliadau gallwch wneud hynny drwy anfon eich ymatebion i'r canlynol:

E-bost: **[taliadau@senedd.cymru](mailto:taliadau@senedd.cymru)**

Post: Clerc y Bwrdd Taliadau,  
Senedd Cymru,  
Bae Caerdydd,  
Caerdydd CF99 1SN.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw **17:00 dydd Iau 17 Chwefror 2022**. Ni fydd ymatebion a ddaw i law ar ôl yr amser hwn yn cael eu hystyried.

Os oes angen cymorth arnoch wrth baratoi eich ymateb, cysylltwch â'r ysgrifenyddiaeth gan ddefnyddio'r manylion uchod.

# Crynodeb o'n polisi preifatrwydd

Mae'r datganiad isod yn rhoi trosolwg cyffredinol o sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei chyflwyno. Mae ein polisi preifatrwydd llawn ar gael o'n gwefan yn: [Polisi Preifatrwydd \(bwrddtaliadau.cymru\)](#)

Y Bwrdd yw'r rheolwr data a bydd yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei diogelu a'i defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Rydym yn dibynnu ar y sail gyfreithiol bod prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a wneir er lles y cyhoedd Y dasg yw hwyluso ein gwaith a chyflawni ein swyddogaethau. Efallai y byddwn yn prosesu data personol categori arbennig oherwydd ei fod yn angenrheidiol am resymau er budd sylweddol i'r cyhoedd.

## Pam rydym yn casglu gwybodaeth, a'r hyn rydym yn ei wneud â'r wybodaeth

Bydd yr hyn a gyflwynir gennych yn cael ei ddefnyddio i lywio ein penderfyniadau ar newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad. Bydd aelodau'r Bwrdd a'i ysgrifenyddiaeth yn gweld eich sylwadau yn llawn. Efallai y caiff rhywfaint o wybodaeth ei rhannu â Chomisiwn y Senedd wrth ystyried unrhyw newidiadau a sut i'w gweinyddu.

Caniateir i ni gyhoeddi eich sylwadau ar ein gwefan. Efallai y byddwn yn cyhoeddi rhannau o'ch sylwadau mewn dogfennau a gynhyrchir yn dilyn yr ymgynghoriad. Bydd sylwadau a gyhoeddir ar wefan y Bwrdd yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd. Rhowch wybod i ni os nad ydych am i'r hyn a gyflwynir gennych gael ei gyhoeddi.

Bydd ymatebion yn cael eu cadw ar systemau TGCh diogel Comisiwn y Senedd (sy'n cynnwys gwasanaethau cwmwl trydydd parti a ddarperir gan Microsoft) hyd nes y byddwn wedi cwblhau'r ymgynghoriad ac am ddim hwy na chwe mis ar ôl yr ymgynghoriad. Bydd unrhyw wybodaeth a gyhoeddir i'r parth cyhoeddus yn aros yno. Ar ôl y cyfnod o chwe mis, byddwn yn cadw ymatebion yn ddiennw.

Os gwneir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gyflwynwyd gennych.

## Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau, gan gynnwys yr hawl i ofyn am fynediad i'ch gwybodaeth. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn:

- i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghywir sydd gennym amdanoch;
- i ni ddileu gwybodaeth amdanoch (o dan rai amgylchiadau);
- i ni roi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol neu o dan rai amgylchiadau; a

- bod eich gwybodaeth yn cael ei darparu i chi neu drydydd parti (eto, o dan rai amgylchiadau).

## Manylion cyswllt

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, gofyn cwestiwn neu wneud cwyn, cysylltwch â'r Ysgrifenyddiaeth yn: [taliadau@senedd.cymru](mailto:taliadau@senedd.cymru).

Yn dilyn cwyn, os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon â'n hymateb, gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma gyfeiriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner's Office,  
Wycliffe House,  
Water Lane,  
Wilmslow,  
Cheshire,  
SK9 5AF.

# Cyflwyniad

Mae'r Bwrdd yn adolygu'r Penderfyniad yn flynyddol i sicrhau bod y cymorth uniongyrchol i Aelodau o'r Senedd yn parhau i fod yn briodol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi manylion ystyriaethau a chynigion y Bwrdd ar gyfer 2022-23.

Ym mis Rhagfyr gwnaethom gyhoeddi ein **Strategaeth ar gyfer 2021-2026**. Mae'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn adlewyrchu egwyddorion arweiniol ein Strategaeth – sef y dylai ein penderfyniadau:

- fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
- cefnogi pwrpas strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;
- bod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy, yn gynhwysol, ac yn cynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr.

Wrth baratoi ein cynigion eleni, rydym hefyd wedi cael ein harwain gan ein hamcanion strategol. Mae'r rhain yn nodi ein bwriad i weithio tuag at gyflawni Penderfyniad sy'n ymatebol, yn symlach, ac yn gynaliadwy. Rydym hefyd am hyrwyddo ymddiriedaeth yn y gwaith a wnawn a chynyddu ymgysylltiad ag ef.

Mae siarad ag Aelodau a'u staff a chydweithio â hwy yn rhan amhrisiadwy o'r ffordd yr ydym yn gwerthuso i ba raddau y mae'r darpariaethau yn y Penderfyniad yn addas at y diben. Rydym wedi bod yn ffodus i gael mewnbwn manwl ac amserol gan y Grwpiau Plaid cyn y broses ymgynghori hon. Rydym wedi myfyrio'n ofalus ar y pwyntiau y maent wedi'u codi ac wedi eu hystyried wrth baratoi'r cynigion a nodir yn y ddogfen hon. Hoffem nodi ein diolch i Aelodau a'u staff am roi o'u hamser i rannu eu profiadau gyda ni, ac edrychwn ymlaen at gynnal deialog agored a chadarnhaol yn ystod tymor pum mlynedd y Senedd hon.

Nod yr ymgynghoriad hwn yw adolygu'r Penderfyniad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Rydym yn croesawu sylwadau sydd gennych am ein cynigion ac edrychwn ymlaen at eu hystyried dros yr wythnosau nesaf.



**Dr Elizabeth Haywood**  
**Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**



## Crynodeb o'r cynigion

Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar y newidiadau isod y mae'n cynnig eu gwneud i'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23.

**Cynnig 1:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r lwfans Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer Aelodau "ardal allanol" 3.1 y cant, yn unol â chyfradd CPI Medi 2021. Bydd hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £810 y mis (neu £9,720 y flwyddyn) yn 2021-22 i £835 y mis (neu £10,020 y flwyddyn) yn 2022-23.

**Cynnig 2:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynnydd o 3.1 y cant i'r "Lwfans Gofalwr", yn unol â chyfradd CPI Medi 2021. Bydd hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £120 y mis (neu £1,440 y flwyddyn) yn 2021-22 i £125 y mis (neu £1,500 y flwyddyn) yn 2022-23.

**Cynnig 3:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cadw'r lwfans "Atgyweiriadau hanfodol" ar ei lefel 2021-22, sef £882 y flwyddyn.

**Cynnig 4:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r lwfans Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer Aelodau "ardal ganolog" 3.1 y cant, yn unol â chyfradd CPI Medi 2021. Bydd hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £6,840 y flwyddyn yn 2021-22 i £7,050 y flwyddyn yn 2022-23.

**Cynnig 5:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynnydd o 3.1 y cant i'r uchafswm fesul noson y gellir ei hawlio am lety mewn gwestai, yn unol â chyfradd CPI Medi 2021. Bydd hyn yn golygu cynyddu'r uchafswm fesul noson o £95 (neu £150 yn Llundain) yn 2021-22 i £98 (neu £155 yn Llundain) yn 2022-23.

**Cynnig 6:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr 3.1 y cant, yn unol â chyfradd CPI Medi 2021. Bydd hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £20,060 y flwyddyn (neu £6,712 os yw swyddfa'r Aelod wedi'i lleoli yn Nhŷ Hywel) i £20,680 y flwyddyn (neu £6,920 os yw swyddfa'r Aelod wedi'i lleoli yn Nhŷ Hywel). Mae'r Bwrdd yn ymrwmo i ail-ystyried y gyfradd hon cyn i'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23 gael ei gwblhau a'i gyhoeddi, er mwyn ystyried yr ymchwil allanol y mae'n bwriadu ei chomisiynu ynghylch amodau'r farchnad ar gyfer swyddfeydd yng Nghymru, ac i ystyried a oes angen gwneud addasiadau pellach mewn ymateb i gostau cyfleustodau ac ynni.

**Cynnig 7:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r lwfans gwariant staffio 0.4 y cant yn 2022-23 i adlewyrchu'r cynnydd blynyddol i gyflogau staff cymorth yn unol ag ASHE (gweler adrannau 7.3 ac 8.4 o'r Penderfyniad). Bydd hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £107,350 y flwyddyn yn 2021-22 i £107,779 y flwyddyn yn 2022-23.

**Cynnig 8:** Mae'r Bwrdd yn gwahodd safbwyntiau ar y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, gan gynnwys a fyddai'n well cael gwared ar y Gronfa honno a'i disodli drwy drosglwyddo £2,500 ychwanegol i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i Aelodau ar sut y gellir ei defnyddio. Byddai'r Bwrdd hefyd yn croesawu safbwyntiau ar fanteision y darpariaethau trosglwyddo, cyfuno ac ategu presennol sydd ar waith ar gyfer y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, a pha elfennau (os o gwbl) o'r nodweddion hynny o'r Gronfa y byddent yn dymuno eu cadw pe bai'r cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

**Cynnig 9:** Mae'r Bwrdd yn cynnig y darpariaethau a ganlyn i ganiatáu i Aelodau hawlio o'u lwfans gwariant staffio er mwyn caniatáu amser i ffwrdd o'r gwaith i'w staff cymorth yn ystod eu horiau gwaith cytunedig fel a ganlyn:

- i. Amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl am ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus di-dâl, megis bod yn llywodraethwr ysgol.
- ii. Amser i ffwrdd o'r gwaith yn ddi-dâl ar gyfer ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus â thâl, megis dyletswyddau cynghorwyr awdurdodau lleol, ac eithrio gwasanaeth rheithgor a hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog (gweler pwynt iii).
- iii. Amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl ar gyfer ymgymryd â gwasanaeth rheithgor a hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog.
- iv. Bydd amser i ffwrdd â thâl i staff cymorth sy'n ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus yn cael ei gyfyngu fel a ganlyn:
  - a. am gyfnod yr achos(ion) mewn perthynas â gwasanaeth rheithgor;
  - b. hyd at uchafswm o 15 diwrnod am bob cyfnod treigl o 12 mis mewn perthynas â hyfforddiant milwyr wrth gefn y lluoedd arfog; ac
  - c. uchafswm o 10 diwrnod am bob cyfnod treigl o 12 mis mewn unrhyw achos arall.
- v. Gellir talu costau cyflenwi ar gyfer y staff cymorth yn ystod y cyfnodau hyn o absenoldeb â thâl o'r Lwfans Staffio Dros Dro sy'n cael ei dalu o gronfeydd canolog y Penderfyniad.
- vi. Ni chaniateir i gyflogeion sy'n cael amser i ffwrdd â thâl gael taliad dwbl.

**Cynnig 10:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol yn 2022-23 0.77 y cant. Bydd hyn yn golygu cynyddu cyfanswm y lwfans o £1,018,450 yn 2021-22 i £1,026,290 yn 2022-23.

**Cynnig 11:** Mae'r Bwrdd yn cynnig diwygio'r Penderfyniad fel nad yw gwelliannau diogelwch i brif gartref Aelod, a argymhellir fel rhai gofynnol gan dîm Diogelwch y Senedd, yn cael eu trin o dan y broses treuliau eithriadol (paragraff 2.4.1A). Yn hytrach, mae'r Bwrdd yn cynnig eu bod yn cael eu trin yn yr un modd â gwelliannau diogelwch i swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol neu lety preswyl yng Nghaerdydd ar gyfer Aelodau "ardal allanol", a argymhellir fel rhai gofynnol gan dîm Diogelwch y Senedd.

**Cydraddoldeb:** Er mwyn llywio ei asesiad effaith o ran cydraddoldeb ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, byddai'r Bwrdd yn falch o glywed eich barn ar y pwyntiau a ganlyn:

- a allai'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon fod ag unrhyw oblygiadau i bobl sy'n uniaethu ag unrhyw nodweddion gwarchoddedig;
- a allai'r materion a godwyd gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael effaith, neu effaith bosibl, ar bobl sy'n uniaethu â'r nodweddion gwarchoddedig fel y cânt eu diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Sylwer mai'r nodweddion gwarchoddedig a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yw: oedran, anabledd, aillbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

# 1. Adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23

## 1.1. Cefndir

**1.1.1.** Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ("y Bwrdd") yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y taliadau a'r adnoddau cywir ar gael i Aelodau o'r Senedd ("yr Aelodau") fel y gallant ymgymryd â'u rôl gan ddangos gwerth am arian i bwrs cyhoeddus Cymru. Mae manylion llawn am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd wedi'u nodi yn **Neddf Llywodraeth Cymru 2006** ac ym **Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010**.

**1.1.2.** Mae cyfres o egwyddorion yn sail i waith y Bwrdd:

### EIN HEGWYDDORION ARWEINIOL

Rydym yn gwneud penderfyniadau ar y system cymorth ariannol a thâl cydnabyddiaeth i Aelodau.



Dylai ein penderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.



Dylai ein penderfyniadau gefnogi pwrpas strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau.



Dylai ein penderfyniadau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy, yn gynhwysol, ac yn cynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr.

**1.1.3.** Fel rhan o'i **Strategaeth ar gyfer 2021-2026**, mae'r Bwrdd hefyd wedi nodi ei amcanion strategol fel a ganlyn:

- **Penderfyniad Ymatebol:** cyflwyno Penderfyniad sy'n ymateb i anghenion busnes newidiol Aelodau, disgwyliadau dinasyddion a'r cyd-destun cyfansoddiadol esblygol.
- **Penderfyniad Symlach:** symleiddio'r Penderfyniad i ddarparu hyblygrwydd i Aelodau i bennu eu blaenoriaethau eu hunain, gyda mesurau diogelwch cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd.
- **Penderfyniad Cynaliadwy:** cyflwyno model cynaliadwy o gefnogaeth, sy'n ystyried anghenion o ran amrywiaeth, yr argyfwng newid yn yr hinsawdd a chyllid yn y tymor hir yng Nghymru.

- **Hyrwyddo Ymddiriedaeth ac Ymgysylltu:** ymgysylltu'n effeithiol ag Aelodau ac ystod ehangach o randdeiliaid i alluogi adolygiadau effeithiol a hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd.

**1.1.4.** Mae'r Bwrdd yn adolygu'r Penderfyniad bob blwyddyn i sicrhau bod y darpariaethau a amlinellir yn parhau i fod yn berthnasol os bydd yr amgylchiadau'n newid. Mae hefyd yn defnyddio'r profiad a gafwyd o weithredu ei benderfyniadau i fyfyririo ar addasrwydd darpariaethau'r Penderfyniad. Mae'r ymgynghoriad hwn yn adlewyrchu'r broses adolygu flynyddol a gynhaliwyd gan y Bwrdd yn ogystal ag ystyried adborth ychwanegol gan y Grwpiau Plaid, staff cymorth ac Aelodau.

## 1.2. Methodoleg

**1.2.1.** Er mwyn sicrhau bod pob penderfyniad yn dryloyw, yn atebol ac yn adlewyrchu amgylchiadau ariannol ehangach Cymru, trafododd y Bwrdd ddarpariaethau penodol yn y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd o'u cymharu â ffynonellau gwybodaeth eraill, gan gynnwys:

- defnydd yr Aelodau o'r darpariaethau cymorth amrywiol;
- cymariaethau â'r cymorth sydd ar gael i gynrychiolwyr etholedig yn neddfwrfeydd eraill y DU;
- cymariaethau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac economi ehangach Cymru.

**1.2.2.** Mae gweddill y ddogfen hon yn amlinellu trafodaethau'r Bwrdd ynghylch darpariaethau'r Penderfyniad a'i gynigion ar gyfer ymgynghoriad.

## 2. Tâl Aelodau

### 2.1. Crynodeb

**2.1.1.** Mae cyflogau'r Aelodau wedi'u rhewi i bob pwrpas ers mis Ebrill 2020. Ym mis Mawrth 2020, cytunodd y Bwrdd y byddai cyflogau'r Aelodau yn ddarostyngedig i fecanwaith mynegeo blynyddol ar gyfer y Chweched Senedd (sef yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Enillion Canolrifol gros blynyddol ar gyfer swyddi gweithwyr amser llawn yng Nghymru rhwng mis Ebrill a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol ("ASHE")), ond na fyddai unrhyw gynnydd yn gallu bod yn fwy na thri y cant (nac yn arwain at ostyngiad mewn cyflog). Bydd y mecanwaith hwn yn gymwys ar gyfer 2022-23, a bydd yn golygu cynnydd o 0.4 y cant yng nghyflog yr Aelodau.

### 2.2. Cefndir

**2.2.1.** Yn unol â *Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010*, ni chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un penderfyniad mewn perthynas â chyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi sy'n dod i rym yn ystod pob tymor yn y Senedd.

**2.2.2.** Fodd bynnag, mae gan y Bwrdd hawl i wneud mwy nag un penderfyniad mewn perthynas â chyflogau Aelodau a deiliaid swyddi sy'n dod i rym yn ystod tymor y Senedd os yw o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol gwneud hynny.

**2.2.3.** Yng ngoleuni effaith pandemig COVID-19, mae'r Bwrdd wedi gwneud tri phenderfyniad eithriadol mewn perthynas â chyflogau'r Aelodau:

**Mawrth 2020** – datgymhwyso, tan fis Hydref 2020, y cynnydd cyflog o 4.4 y cant i Aelodau a deiliaid swyddi (a oedd i fod i gael ei dderbyn o fis Ebrill 2020, yn unol ag ASHE);

**Medi 2020** – diddymu mynegeo i gyflogau Aelodau a deiliaid swyddi cyn dechrau'r Chweched Senedd (gan ddisodli'r ddarpariaeth y byddai cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi yn cael eu haddasu +4.4 y cant ym mis Hydref 2020, ac wedi hynny ym mis Ebrill bob blwyddyn gan y newid yn ASHE); a

**Mawrth 2021** – newid cyflogau'r Aelodau o £70,626<sup>1</sup> i £67,649 (sy'n golygu na fyddai cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi yn cynyddu ar ddechrau'r Chweched Senedd), a

---

<sup>1</sup> Adran 3.1.2 o'r **Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer y Chweched Senedd**, Mehefin 2020.

diwygio'r Penderfyniad i sicrhau na fyddai unrhyw fynegeio blynyddol a ddefnyddir ar gyfer cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol o 2022-23 ymlaen yn fwy na thri y cant ac na fyddai'n arwain at ostyngiad mewn cyflog.

**2.2.4.** Mae'r penderfyniadau eithriadol hyn wedi golygu bod cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi wedi'u rhewi i bob pwrpas ar gyfer blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22.

**2.2.5.** Mae Penderfyniad y Bwrdd ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn y Chweched Senedd (fel y cytunwyd arno ym mis Mawrth 2021) wedi'i amlinellu ym Mhennod 3 o'r Penderfyniad:

- Bydd cyflogau'r Aelodau yn cael eu haddasu ym mis Ebrill 2022 (a phob mis Ebrill wedi hynny) gan y newid yn ASHE; ac
- Ni fydd yr addasiad hwn yn is na sero y cant ac fydd yn uwch na 3 y cant.

## 2.3. Trafodaeth y Bwrdd

**2.3.1.** Cyhoeddwyd y ffigur ASHE diweddaraf ar 26 Hydref 2021. Y ffigur perthnasol ar gyfer Cymru oedd 0.4 y cant. Nododd y Bwrdd y byddai hyn yn arwain at gynnydd o 0.4 y cant yn cael ei gymhwyso i gyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ar gyfer 2022-23, yn unol â'r mecanwaith mynegeio blynyddol a amlinellir yn adran 3.2 o'r Penderfyniad.

**2.3.2.** Nid yw'r Bwrdd yn credu bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli sy'n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol gwneud penderfyniad newydd mewn perthynas â chyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi. Mae'n nodi felly y bydd cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi yn codi 0.4 y cant (ASHE) ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Y cyflog ar gyfer Aelodau felly fydd £67,920.

## 3. Gwariant ar lety preswyl

### 3.1. Crynodeb

**3.1.1.** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r uchafswm y gellir ei hawlio mewn perthynas â Llety Preswyl yn unol â chyfradd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr ("CPI") ym mis Medi 2021 (3.1 y cant), ac eithrio costau ar gyfer atgyweiriadau hanfodol o dan baragraff 4.4.10.c o'r Penderfyniad, a gedwir ar y lefel bresennol.

### 3.2. Cefndir

**3.2.1.** Mae Pennod 4 o'r Penderfyniad yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i'r Aelodau dalu costau y mae'n rhaid iddynt eu hysgwyo wrth aros i ffwrdd o'u prif gartrefi mewn cysylltiad â chyflawni eu rôl fel Aelodau.

**3.2.2.** Rhoddir prif gartref Aelod mewn un o dri chategori (yn seiliedig ar leoliad), sef yr ardal fewnol, yr ardal ryngol a'r ardal allanol (fel yr amlinellir yn adrannau 4.2-4.4 o'r Penderfyniad). Mae lefel benodol o gymorth i dalu am lety dros nos yng Nghaerdydd yn cyfateb i bob ardal. Mae'r Bwrdd yn adolygu gwerth y cymorth sydd ar gael ar gyfer pob ardal bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn parhau'n addas at y diben.

**3.2.3.** Mae Pennod 4 hefyd yn nodi'r cymorth sydd ar gael i Aelodau sy'n aros dros nos y tu allan i Gaerdydd, os bydd angen iddynt wneud hynny wrth gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau etholedig.

**3.2.4.** Trafododd y Bwrdd drefniadau Gwariant Llety Preswyl ar gyfer 2022-23 ac adolygodd nifer o ffactorau, gan gynnwys defnydd yr Aelodau o'r cymorth hwn, marchnad rentu Bae Caerdydd, a chyfraddau gwestai yn ardal Bae Caerdydd.

### 3.3. Trafodaeth y Bwrdd

#### Ardal allanol

---

**3.3.1.** Ystyriodd y Bwrdd briodoldeb y lwfans o £9,720 y flwyddyn (£810 y mis calendr) ar gyfer Aelodau "ardal allanol".

**3.3.2.** Nododd y Bwrdd na fu unrhyw newid i'r lwfans hwn ers y Penderfyniad ar gyfer 2019-20 (pan gynyddwyd y lwfans 2.4 y cant yn unol â chyfradd CPI Medi 2018). Nododd y Bwrdd hefyd fod dadansoddiad o farchnad rhentu Bae Caerdydd rhwng mis Hydref 2020 a mis Hydref

2021, ac eithrio fflatiau â phrisiau dros £1,000 y mis, yn dangos newid blynyddol mewn rhent o +2.8 y cant.

**3.3.3.** Ar y sail hon, ac yng ngoleuni'r adborth a gafwyd gan Aelodau am eu profiadau o gostau rhentu ym Mae Caerdydd, mae'r Bwrdd o'r farn bod digon o dystiolaeth i gefnogi cynnydd yn y lwfans hwn. Ystyriodd y Bwrdd ystod o fynegeion posibl, a daeth i'r casgliad mai cyfradd CPI Medi 2021, sef 3.1 y cant, oedd y mwyaf addas. Daeth y Bwrdd i'r casgliad hwn ar y sail bod mabwysiadu'r gyfradd CPI hon yn galluogi ymateb digonol i dueddiadau presennol yn y farchnad leol (gyda'r nod o sicrhau fforddiadwyedd i Aelodau), tra'n cynnal lefel o gysondeb yn null y Bwrdd.

**3.3.4.** Cytunodd y Bwrdd felly y dylid cynyddu'r lwfans "ardal allanol" ar gyfer 2022-23 yn unol â chyfradd CPI Medi 2021 (3.1 y cant), a chynyddu'r lwfans o'r ffigur sy'n cyfateb i £810 y mis (neu £9,720 y flwyddyn) yn 2021-22 i £835 y mis (neu £10,020 y flwyddyn) yn 2022-23.

**Cynnig 1:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r lwfans Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer Aelodau "ardal allanol" 3.1 y cant, yn unol â chyfradd CPI Medi 2021. Bydd hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £810 y mis (neu £9,720 y flwyddyn) yn 2021-22 i £835 y mis (neu £10,020 y flwyddyn) yn 2022-23.

### **Lwfans Gofalwr**

**3.3.5.** Mae paragraff 4.4.3.h o'r Penderfyniad yn darparu, yn amodol ar gymeradwyo achos busnes, y gall Aelodau "ardal allanol" sy'n gallu dangos bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu ar gyfer dibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda hwy yn ardal Caerdydd hawlio hyd at £1,440 y flwyddyn i dalu am gost llety addas.

**3.3.6.** Ystyriodd y Bwrdd briodoldeb y lwfans hwn a daeth i'r casgliad, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y lwfansau a bennwyd gan y Bwrdd, ac i gydnabod ei amcan i ddenu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol i'r Senedd, y dylai'r lwfans hwn o £1,440 y flwyddyn yn 2021-22, sy'n cyfateb i £120 y mis, gael ei gynyddu yn unol â chyfradd CPI Medi 2021 (3.1 y cant), i £125 y mis (£1,500 y flwyddyn) yn 2022-23.

**Cynnig 2:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynnydd o 3.1 y cant i'r "Lwfans Gofalwr", yn unol â chyfradd CPI Medi 2021. Bydd hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £120 y mis (neu £1,440 y flwyddyn) yn 2021-22 i £125 y mis (neu £1,500 y flwyddyn) yn 2022-23.

### **Atgyweiriadau hanfodol**

**3.3.7.** Ystyriodd y Bwrdd briodoldeb y lwfans o £882 y flwyddyn ar gyfer Aelodau "ardal allanol" sy'n gymwys o dan adran 4.4.9 o'r Penderfyniad i hawlio ad-daliad ar gyfer cost atgyweiriadau hanfodol.



**3.3.8.** Nododd y Bwrdd fod y lwfans hwn cael ei gadw ar yr un lefel drwy gydol cyfnod y Bumed Senedd ac i gyfnod y Chweched Senedd. At hynny, gan fod y lwfans yn ymwneud â threfniadau trosiannol na fyddant ar gael ar ôl i'r Chweched Senedd gael ei diddymu, nid oedd y Bwrdd yn credu bod digon o dystiolaeth i newid y lwfans hwn ar gyfer 2022-23.

**Cynnig 3:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cadw'r lwfans "Atgyweiriadau hanfodol" ar ei lefel 2021-22, sef £882 y flwyddyn.

### **Ardal ganolog**

---

**3.3.9.** Ystyriodd y Bwrdd briodoldeb y lwfans o £6,480 y flwyddyn i Aelodau "ardal ganolog" hawlio am aros dros nos.

**3.3.10.** Nododd y Bwrdd na fu unrhyw newid i'r lwfans hwn ers y Penderfyniad ar gyfer 2019-20 (pan ddyblwyd y lwfans i gydnabod cynnydd mewn busnes y Senedd).

**3.3.11.** At y diben o gynnal dull gweithredu cyson ar draws y lwfansau a bennir gan y Bwrdd, ac yng ngoleuni'r adborth a gafwyd gan yr Aelodau am eu profiadau o gostau ar gyfer aros dros nos ym Mae Caerdydd (gweler yr adran nesaf sy'n ymwneud â llety dros nos), cytunodd y Bwrdd y dylid cynyddu'r lwfans hwn ar gyfer 2022-23 yn unol â chyfradd CPI Medi 2021 (3.1 y cant). Byddai hyn yn golygu cynnydd o £6,840 y flwyddyn yn y lwfans ar gyfer yr "ardal ganolog" yn 2021-22, i £7,050 y flwyddyn yn 2022-23.

**Cynnig 4:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r lwfans Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer Aelodau "ardal ganolog" 3.1 y cant, yn unol â chyfradd CPI Medi 2021. Bydd hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £6,840 y flwyddyn yn 2021-22 i £7,050 y flwyddyn yn 2022-23.

### **Llety dros nos (ar gyfer Aelodau "ardal ganolog" ac eraill)**

---

**3.3.12.** Ystyriodd y Bwrdd yr uchafswm fesul noson y gall Aelodau "ardal ganolog" ei hawlio am lety mewn gwesty yng Nghaerdydd, neu ar gyfer llety arall dros nos y tu allan i ardal Caerdydd sy'n angenrheidiol mewn cysylltiad â chyflawni ei ddyletswyddau, sef £95 (neu £150 os yn Llundain).

**3.3.13.** O ran Aelodau "ardal ganolog", nododd y Bwrdd adborth yn ymwneud â phrofiadau rhai Aelodau o gostau aros dros nos ym Mae Caerdydd. Nododd hefyd fod dadansoddiad o gyfraddau gwestai yn ardal Bae Caerdydd yn ystod mis Hydref 2021 wedi canfod bod nifer o westai ar gael, naill ai ar y diwrnod neu gyda diwrnod o rybudd, o fewn y gyfradd o £95. Fodd bynnag, cydnabu'r Bwrdd y bydd adegau pan fydd digwyddiadau ar raddfa fawr yn cynyddu'r prisiau ac efallai na fydd ystafelloedd ar gael ar fyr rybudd o fewn y terfyn. Mewn amgylchiadau

eithriadol, mae paragraff 4.3.2 o'r Penderfyniad yn caniatáu i Aelodau fynd dros y gyfradd hon gyda chymeradwyaeth y Prif Weithredwr a Chlerc.

**3.3.14.** At y diben o fod yn gyson ar draws y lwfansau a bennir gan y Bwrdd, ac yng ngoleuni'r adborth a gafwyd gan yr Aelodau am eu profiadau o gostau ar gyfer aros dros nos yng Nghaerdydd (gweler yr adran nesaf sy'n ymwneud â llety dros nos), cytunodd y Bwrdd y dylid cynyddu uchafswm fesul noson y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 4.5.5 o'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23 yn unol â chyfradd CPI Medi 2021 (3.1 y cant). Byddai hyn yn golygu cynyddu'r uchafswm fesul noson y gellir ei hawlio am lety mewn gwesty (gan gynnwys brechwast a pharcio) o £95 (neu £150 os yn Llundain) yn 2021 i £98 (neu £155 os yn Llundain) yn 2022-23.

**Cynnig 5:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynnydd o 3.1 y cant i'r uchafswm fesul noson y gellir ei hawlio am lety mewn gwestai, yn unol â chyfradd CPI Medi 2021. Bydd hyn yn golygu cynyddu'r uchafswm fesul noson o £95 (neu £150 yn Llundain) yn 2021-22 i £98 (neu £155 yn Llundain) yn 2022-23.

## 4. Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr

### 4.1. Crynodeb

**4.1.1.** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ("y Gronfa Costau") yn unol â chyfradd CPI Medi 2021 (3.1 y cant). Bydd y Bwrdd yn ailedrych ar hyn cyn i'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23 gael ei gwblhau, er mwyn rhoi ystyriaeth bellach i dystiolaeth sy'n ymwneud ag amodau'r farchnad ar gyfer swyddfeydd yng Nghymru, ac ystyried a oes angen gwneud addasiadau pellach mewn ymateb i gostau cyfleustodau ac ynni.

### 4.2. Cefndir

**4.2.1.** Mae Pennod 6 o'r Penderfyniad yn nodi bod gan yr Aelodau hawl i wneud cais am ad-daliad ar gyfer unrhyw gostau rhesymol sy'n ymwneud â rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr o dan y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

**4.2.2.** Mae'r Gronfa Costau yn cynnwys costau nodweddiadol sy'n gysylltiedig â swyddfa fel rhent, cyfraddau a chyfleustodau, ond hefyd costau datblygu a rhedeg gwefannau, hysbysebu, ffonau symudol a chostau cyfreithiol. Y Gronfa Costau ar gyfer 2021-22 oedd £20,060 neu £6,712 lle mae'r Aelod yn gweithio o Dŷ Hywel yn unig. Ers 2021-22, mae'r Gronfa Costau hefyd wedi cynnwys yr holl gostau sy'n ymwneud â deunydd ysgrifennu, gan gynnwys postio ac argraffu – fe'i cynyddwyd £1,800 fesul Aelod i adlewyrchu trosglwyddo'r gyllideb deunydd ysgrifennu o gyllideb ganolog y Comisiwn i gyllideb y Penderfyniad.<sup>2</sup> Diben y newid hwn oedd rhoi mwy o dryloywder ynghylch gwariant Aelodau ar ddarpariaethau o'r fath.

### 4.3. Trafodaeth y Bwrdd

**4.3.1.** Wrth ystyried a yw'r Gronfa Costau yn parhau i fod yn briodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, ystyriodd y Bwrdd yr adborth ychwanegol a gafwyd gan Grwpiau Plaid ac Aelodau, a nododd y pryderon a leisiwyd ynghylch costau rhentu ym misoedd cynnar y Senedd newydd hon. Mae'r Bwrdd yn awyddus i sicrhau sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer y penderfyniadau y mae'n eu gwneud ac, yng ngoleuni'r pryderon a godwyd, bydd yn comisiynu

---

<sup>2</sup> Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chwched Senedd: Adroddiad, Mawrth 2021, paragraffau 73-75.

ymchwil allanol i lywio ei asesiad (cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon) o amodau'r farchnad ar gyfer swyddfeydd yng Nghymru.

**4.3.2.** Nododd y Bwrdd hefyd yr heriau a nodwyd mewn adborth gan Grwpiau Plaid a'r Aelodau mewn perthynas â'r cynnydd disgwylidiedig mewn biliau cyfleustodau ac ynni. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod rhagfynegiadau'n awgrymu cynnydd yn y costau hyn, ond mae hefyd yn ymwybodol o ansefydlogrwydd parhaus yn y farchnad. Ar y sail hon, cytunodd y Bwrdd i adolygu amodau ym mis Mawrth 2022, cyn cyhoeddi'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23, er mwyn asesu a fydd angen unrhyw addasiadau pellach i'r Gronfa Costau.

**4.3.3.** Mae rhai Aelodau hefyd wedi rhannu pryderon yn ymwneud â throsglwyddo'r gyllideb deunydd ysgrifennu, a'r newidiadau cysylltiedig i'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu. Mae'r rhain yn cael sylw ym mharagraffau 5.3.4 – 5.3.5 a Chynnig 8 o'r ddogfen ymgynghori hon.

**4.3.4.** Yn unol â bwriad y Bwrdd i gynnal cysondeb ar draws y lwfansau y mae'n penderfynu yn eu cylch, ac yng ngoleuni'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch costau swyddfa, cytunodd y Bwrdd y dylid cynyddu'r lwfans hwn ar gyfer 2022-23 yn unol â chyfradd CPI Medi 2021 (3.1 y cant), gan gynyddu'r lwfans o £20,060 y flwyddyn (neu £6,712 os yw swyddfa'r Aelod wedi'i lleoli yn Nhŷ Hywel) i £20,680 y flwyddyn (neu £6,920 os yw swyddfa'r Aelod wedi'i lleoli yn Nhŷ Hywel).

**Cynnig 6:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr 3.1 y cant, yn unol â chyfradd CPI Medi 2021. Bydd hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £20,060 y flwyddyn (neu £6,712 os yw swyddfa'r Aelod wedi'i lleoli yn Nhŷ Hywel) i £20,680 y flwyddyn (neu £6,920 os yw swyddfa'r Aelod wedi'i lleoli yn Nhŷ Hywel). Mae'r Bwrdd yn ymrwymo i ail-ystyried y gyfradd hon cyn i'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23 gael ei gwblhau a'i gyhoeddi, er mwyn ystyried yr ymchwil allanol y mae'n bwriadu ei chomisiynu ynghylch amodau'r farchnad ar gyfer swyddfeydd yng Nghymru, ac i ystyried a oes angen gwneud addasiadau pellach mewn ymateb i gostau cyfleustodau ac ynni.

## 5. Cymorth Staffio

### 5.1. Crynodeb

**5.1.1.** Ym mis Mawrth 2020, cytunodd y Bwrdd y byddai cyflogau staff cymorth yn ddarostyngedig i fecanwaith mynegeio blynyddol ar gyfer y Chweched Senedd, ond na fyddai unrhyw gynnydd yn gallu bod yn fwy na thri y cant (nac yn arwain at ostyngiad mewn cyflog). Bydd y mecanwaith hwn yn gymwys ar gyfer 2022-23, a bydd yn golygu cynnydd o 0.4 y cant yng nghyflog staff cymorth. Mae'r Bwrdd yn gwahodd sylwadau ar drefniadau sy'n ymwneud â'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, a darpariaethau ar gyfer amser i ffwrdd ar gyfer staff cymorth sy'n ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.

### 5.2. Cefndir

**5.2.1.** Mae penodau 7 ac 8 o'r Penderfyniad yn nodi, mewn perthynas â chyfrifoldebau pob Aelod ac Arweinydd Plaid fel cyflogwyr, mai rôl y Bwrdd yw:

- darparu lwfans y gellir ei ddefnyddio ar gyfer staffio,
- pennu'r fframwaith cyflogaeth drwy ddarparu graddfeydd cyflog, contractau safonedig a pholisïau gorfodol ar gyfer yr holl weithwyr yn ymwneud â meysydd y gellir darparu cyllid ar eu cyfer drwy'r Penderfyniad

**5.2.2.** Yn debyg i'r trefniadau ar gyfer cyflogau'r Aelodau a nodwyd ym mhennod 2 o'r ddogfen ymgynghori hon, bydd cyflogau staff cymorth yr Aelodau a phleidiau gwleidyddol yn cael eu haddasu bob blwyddyn yn unol â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Enillion Canolrifol gros amcangyfrifedig cyflogeion amser llawn yng Nghymru rhwng mis Ebrill y flwyddyn honno a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol ("ASHE").

**5.2.3.** Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, cododd cyflogau staff cymorth 4.4 y cant, yn unol ag ASHE. Roedd hyn yn wahanol i dâl ariannol yr Aelodau, a oedd wedi'i rewi. Ar y pryd, roedd y Bwrdd o'r farn bod hyn yn gynnydd hael mewn cyflog o'i gymharu â thueddiadau cyflog mewn manau eraill yn ystod yr un cyfnod, ond roedd yn ymwybodol —pe bai amodau economaidd yn parhau— y gallai ffigur mynegai ASHE fod yn isel iawn (hyd yn oed yn negyddol) yn y dyfodol.

**5.2.4.** Ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd, cyflwynodd y Bwrdd uchafswm (3 y cant) a lleiafswm (0 y cant) ar gyfer lefel flynyddol o addasu mynegeio ASHE ar gyfer cyflogau staff cymorth. Bwriad penderfyniad y Bwrdd i roi terfynau ar godiadau blynyddol i gyflogau oedd osgoi'r posibilrwydd o newidiadau sylweddol iawn i gyflogau o un flwyddyn i'r nesaf, o

ganlyniad i ansefydlogrwydd ffigurau mynegai'r ASHE, ac i warchod yn erbyn unrhyw ostyngiad mewn cyflogau.

**5.2.5.** Hefyd, mae cymorth staffio i Aelodau yn cynnwys y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu. Caiff Aelod hawlio hyd at £2,500 (gan gynnwys TAW) tuag at y gost o dalu am arbenigedd allanol i gynghori neu i helpu, am gyfnod penodedig, er mwyn cyflawni darn o waith ymchwil penodol neu ymgysylltu ag etholwyr. Ni chaniateir defnyddio'r Gronfa bedwar mis cyn etholiad cyffredinol arferol. Caiff yr Aelodau hefyd:

- gyfuno'r gyllideb o £2,500 gydag Aelodau eraill i greu cronfa fwy;
- trosglwyddo arian i gyllideb eu plaid i greu cronfa fwy at ddibenion ymchwil; neu
- ychwanegu at eu £2,500 gydag arian ychwanegol o'u cyllideb staffio eu hunain.

**5.2.6.** Ym mis Mawrth 2021, yn dilyn ymgynghoriad, trosglwyddwyd y gyllideb ar gyfer deunydd ysgrifennu a ariennir yn ganolog (gan gynnwys argraffu) o Gomisiwn y Senedd i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. Law yn llaw â hyn, addasodd y Bwrdd ddarpariaethau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu i atal Aelodau rhag ei defnyddio ar gyfer costau argraffu ac arwyddion. Drwy sicrhau na allai Aelodau hawlio am gostau o'r fath gan y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr a'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, nod y Bwrdd oedd rhoi tryloywder ac eglurder i'r Aelodau ynghylch pa lwfans y gellid ei ddefnyddio ar gyfer argraffu ac arwyddion.

## 5.3. Trafodaeth y Bwrdd

### Lwfans Gwariant Staffio

---

**5.3.1.** Nododd y Bwrdd fod y ffigur ASHE diweddaraf wedi'i gyhoeddi ar 26 Hydref 2021, ac mai'r ffigur perthnasol ar gyfer Cymru oedd 0.4 y cant. Er bod y Bwrdd yn cydnabod nad oedd hyn mor hael â'r cynnydd yn unol ag ASHE yn ystod y ddwy flynedd flaenorol (4.4 y cant o 1 Ebrill 2020 a 2.4 y cant o 1 Ebrill 2021), nododd hefyd fod y rhain yn sylweddol uwch na'r cynnydd CPI ym mis Medi 2019 (1.7 y cant) a Medi 2020 (0.5 y cant).

**5.3.2.** Cytunodd y Bwrdd fod yr angen i gynnal dull cyson o bennu lwfansau, ynghyd â'r ansefydlogrwydd yn y mynegeion perthnasol sy'n bodoli, yn gwneud y defnydd parhaus o'r mecanwaith mynegeio blynyddol (gan gynnwys ei ddarpariaeth ar gyfer isafswm ac uchafswm yr addasiad) yn briodol. Ar sail hynny, nododd y Bwrdd y bydd cynnydd o 0.4 y cant (ASHE) i gyflogau staff cymorth ar gyfer 2022-23, yn unol â'r mecanwaith mynegeio blynyddol a amlinellir yn adrannau 7.3 ac 8.4 o'r Penderfyniad.

**5.3.3.** Mae'r Bwrdd wedi cael rhywfaint o adborth gan Aelodau eu bod yn pryderu am ddigonolrwydd yr uchafswm cyffredinol o £107,350 y flwyddyn ar gyfer gwariant staffio. Nid oedd y Bwrdd yn teimlo bod digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i gynnig cynnydd i'r cwantwm cyffredinol (y tu hwnt i'r cynnydd o 0.4 y cant sydd ei angen ar gyfer y cynnydd yng nghyflogau staff cymorth). Serch hynny, fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae'r Bwrdd yn agored i gael dystiolaeth sylweddol bellach mewn perthynas â'r cwantwm cyffredinol. At hynny, yn amodol ar drafodaethau parhaus ar faterion yn ymwneud â diwygio'r Senedd, nododd y Bwrdd y bydd yn ystyried y dull cyffredinol o ymdrin â'r lwfans staffio cyn y Seithfed Senedd.

**Cynnig 7:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r lwfans gwariant staffio 0.4 y cant yn 2022-23 i adlewyrchu'r cynnydd blynyddol i gyflogau staff cymorth yn unol ag ASHE (gweler adrannau 7.3 ac 8.4 o'r Penderfyniad). Bydd hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £107,350 y flwyddyn yn 2021-22 i £107,779 y flwyddyn yn 2022-23.

## **Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu**

---

**5.3.4.** Mae'r Bwrdd wedi cael rhywfaint o adborth gan Aelodau bod y penderfyniad i drosglwyddo'r gyllideb deunydd ysgrifennu canolog i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ar y cyd â'r newid cysylltiedig i atal y defnydd o'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu ar gyfer costau argraffu ac arwyddion, wedi bod yn broblem. Er nad oedd y Bwrdd yn teimlo bod digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i gynnig newid i'r Penderfyniad yn hyn o beth, nid yw'n dymuno gweld sefyllfa'n datblygu lle mae penderfyniad blaenorol yn cael canlyniad anfwriadol o ran gallu'r Aelodau i ymgysylltu â'u hetholwyr.

**5.3.5.** Ar y sail honno, byddai'r Bwrdd yn croesawu barn ar y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, gan gynnwys a fyddai'n well cael gwared ar y Gronfa honno a'i disodli drwy drosglwyddo £2,500 ychwanegol i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i Aelodau ar sut y gellir ei defnyddio. Byddai'r Bwrdd hefyd yn croesawu barn yr Aelodau ar fanteision y darpariaethau trosglwyddo, cyfuno ac ategu presennol sydd ar waith ar gyfer y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, a pha elfennau (os o gwbl) o'r nodweddion hynny o'r Gronfa y byddent yn dymuno eu cadw pe bai'r cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

**Cynnig 8:** Mae'r Bwrdd yn gwahodd safbwyntiau ar y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, gan gynnwys a fyddai'n well cael gwared ar y Gronfa honno a'i disodli drwy drosglwyddo £2,500 ychwanegol i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i Aelodau ar sut y gellir ei defnyddio. Byddai'r Bwrdd hefyd yn croesawu safbwyntiau ar fanteision y darpariaethau trosglwyddo, cyfuno ac ategu presennol sydd ar waith ar gyfer y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, a pha elfennau (os o gwbl) o'r nodweddion hynny o'r Gronfa y byddent yn dymuno eu cadw pe bai'r cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

## **Gofynion cyflogaeth y Bwrdd**

---

**5.3.6.** Fel rhan o'r broses adolygu flynyddol, ystyriodd y Bwrdd y camau y mae angen eu cymryd i wella eglurder mewn perthynas â gofynion gorfodol y Bwrdd wrth geisio hawlio o'r lwfans gwariant staffio.

**5.3.7.** Nod y Bwrdd yw bod yn glir y bydd yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â pholisïau penodol lle mae gan y mater perthnasol ganlyniad ariannol uniongyrchol, fel rheol mater i Gomisiwn y Senedd yw darparu rhagor o fanylion fel canllawiau a/neu dempledi ychwanegol o arfer da i'r Aelodau fel cyflogwyr.

**5.3.8.** Yng ngoleuni hyn, adolygodd y Bwrdd y gofynion a'r polisïau y cyfeirir atynt yn y Penderfyniad a chytunodd i ymgymryd â'r ymarfer hwn yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn addas i'r diben. Fel rhan o'r adolygiad hwn, gwnaeth y Bwrdd y canlynol:

- nodi'r Adolygiad Urddas a Pharch sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Gomisiwn y Senedd ac, o ystyried pa mor berthnasol ydyw i'r gweithdrefnau Disgyblu a Chwyno sy'n gymwys i staff cymorth Aelodau (fel y'u pennir gan y Bwrdd), cytunodd i ddychwelyd i ystyried ei effaith ar ôl i'r Adolygiad ddod i ben;
- cytuno i ystyried pwyntiau allweddol sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr yn y dyfodol; a
- chytuno i ymgynghori ar fanylion gofynion gorfodol ynghylch amser i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus.

**5.3.9.** Yn ychwanegol at y gofynion a nodir yn y Penderfyniad a'r contract cyflogaeth safonol, mae Llawlyfr Staff Cymorth ar wahân yn cael ei ddatblygu gan y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau. Bydd y Llawlyfr hwn yn nodi gofynion gorfodol y Bwrdd (y mae cyllid yn amodol arnynt), darpariaethau statudol, ac arfer da a chanllawiau gan y Comisiwn (at ddefnydd yn ôl disgrisiwn yr Aelod fel y cyflogwr).

### ***Amser i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus***

**5.3.10.** Mae paragraffau 7.9.2 ac 8.1.4A o'r Penderfyniad yn cyfeirio at bolisi gorfodol gan y Bwrdd sy'n caniatáu i Aelodau roi amser i ffwrdd o'r gwaith i'w staff ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus. Hyd yma, nid yw'r Bwrdd wedi ymgynghori ar fanylion y polisi hwn.

**5.3.11.** Er mwyn llywio ei gynigion, mae'r Bwrdd wedi ystyried dulliau a fabwysiadwyd gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a gofynion hyfforddiant blynyddol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog.



**5.3.12.** Yn unol ag adran 50 o **Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996** ("y Ddeddf"), caniateir i gyflogeion gael amser i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus. Nid oes cyfeiriad yn y Ddeddf at dâl i gyflogeion sy'n cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i gyflawni dyletswyddau cyhoeddus, felly nid yw'n ofynnol i gyflogwyr dalu cyflogeion am amser i ffwrdd o'r gwaith i gyflawni dyletswyddau cyhoeddus (er bod llawer yn gwneud hynny).

**5.3.13.** Mae'r Bwrdd yn cynnig y gall Aelodau, o fewn paramedrau penodol, hawlio o'u lwfans gwariant staffio er mwyn talu i staff cymorth gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.

**5.3.14.** Nid yw'r Bwrdd yn credu y dylid caniatáu taliad dwbl (h.y. ni ddylai'r cyflogai allu cael ei gyflog staff cymorth yn ogystal â ffioedd presenoldeb/unrhyw daliad arall ac eithrio costau teithio neu gynhaliaeth am unrhyw ddyletswyddau a gyflawnir yn ystod y cyfnod o amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus). Mae'r Bwrdd yn ystyried opsiynau ar gyfer rhoi'r gofyniad hwn ar waith, gan gynnwys:

- ei gwneud yn ofynnol i gyflogeion sydd wedi cael amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl beidio â hawlio neu gael ffioedd presenoldeb neu unrhyw daliadau digolledu eraill, oni bai eu bod yn rhai teithio neu gynhaliaeth am unrhyw ddyletswyddau a gyflawnir yn ystod cyfnod yr absenoldeb; a/neu
- didynnu unrhyw daliad a geir ar gyfer ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus o daliadau cyflog staff cymorth (gan dybio bod y taliad a geir ar gyfer ymgymryd â'r ddyletswydd gyhoeddus yn is na'r taliad cyflog) - cyfrifoldeb yr Aelod fel y cyflogwr fyddai hysbysu'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau am y cyfnodau perthnasol o absenoldeb a thaliadau a gafwyd gan yr aelod o staff.

**5.3.15.** Bwriedir i ddarpariaethau sy'n ymwneud ag amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus gael eu cynnwys yn y Llawlyfr Staff Cymorth ac ar wefan y Bwrdd, yn unol â phenderfyniadau eraill y Bwrdd ar ddarpariaethau gorfodol.

**Cynnig 9:** Mae'r Bwrdd yn cynnig y darpariaethau a ganlyn i ganiatáu i Aelodau hawlio o'u lwfans gwariant staffio er mwyn caniatáu amser i ffwrdd o'r gwaith i'w staff cymorth yn ystod eu horiau gwaith cytunedig fel a ganlyn:

- i. Amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl am ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus di-dâl, megis bod yn llywodraethwr ysgol.
- ii. Amser i ffwrdd o'r gwaith yn ddi-dâl ar gyfer ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus â thâl, megis dyletswyddau cynghorwyr awdurdodau lleol, ac eithrio gwasanaeth rheithgor a hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog (gweler pwynt iii).
- iii. Amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl ar gyfer ymgymryd â gwasanaeth rheithgor a hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog.

- iv. Bydd amser i ffwrdd â thâl i staff cymorth sy'n ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus yn cael ei gyfyngu fel a ganlyn:
  - a. am gyfnod yr achos(ion) mewn perthynas â gwasanaeth rheithgor;
  - b. hyd at uchafswm o 15 diwrnod am bob cyfnod treigl o 12 mis mewn perthynas â hyfforddiant milwyr wrth gefn y lluoedd arfog; ac
  - c. uchafswm o 10 diwrnod am bob cyfnod treigl o 12 mis mewn unrhyw achos arall.
- v. Gellir talu costau cyflenwi ar gyfer y staff cymorth yn ystod y cyfnodau hyn o absenoldeb â thâl o'r Lwfans Staffio Dros Dro sy'n cael ei dalu o gronfeydd canolog y Penderfyniad.
- vi. Ni chaniateir i gyflogeion sy'n cael amser i ffwrdd â thâl gael taliad dwbl.

## 6. Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol

### 6.1. Crynodeb

**6.1.1.** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol yn 2022-23 0.77 y cant (gan addasu cyfartaledd y gyfran a wariwyd ar gyflogau (86.3 y cant) yn ôl y mynegai ASHE, sef 0.4 y cant, a chan addasu gweddill y lwfans yn ôl cyfradd CPI Medi 2021 (3.1 y cant)).

### 6.2. Cefndir

**6.2.1.** Mae Pennod 8 o'r Penderfyniad yn darparu ar gyfer y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ("y Lwfans"). Mae paragraff 8.1.1 o'r Penderfyniad yn nodi bod y gefnogaeth hon yn bodoli er mwyn cynorthwyo pleidiau i gyflawni eu gwaith yn y Senedd, a'i bod yn daladwy dim ond mewn perthynas â chostau a ysgwyddir gan Aelodau er mwyn cyflawni eu dyletswyddau yn unig, a'i fod yn wariant angenrheidiol.

**6.2.2.** Nodir lefel y gefnogaeth sydd ar gael ym Mhennod 8 o'r Penderfyniad ac mae'n dibynnu ar nifer Aelodau'r blaid wleidyddol ac a yw wedi'i chynrychioli yn y Llywodraeth ai peidio. Yn 2021-22, cyfanswm y Lwfans oedd ar gael oedd £1,018,450. O hynny:

- mae unrhyw blaid wleidyddol nad yw'n rhan o Lywodraeth Cymru wedi gallu hawlio lwfans gweinyddu craidd o £55,390 os oes ganddi dri Aelod neu ragor;
- mae unrhyw blaid wleidyddol sy'n rhan o Lywodraeth Cymru wedi cael lwfans gweinyddu craidd o £11,190 am bob Aelod, hyd at uchafswm o £167,790;
- mae'r balans sy'n weddill wedi cael ei ddyrannu'n gyfartal fesul pen ymysg yr holl Aelodau nad yw eu pleidiau wedi eu cynrychioli yn Llywodraeth Cymru.

**6.2.3.** Caiff cyfanswm gwerth y Lwfans ei addasu bob blwyddyn i adlewyrchu costau cynyddol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â chyflogau staff. Ers 2020, i gydnabod y ffaith nad yw'r Lwfans yn cael ei ddefnyddio i ariannu cyflogau staff cymorth grŵp yn unig, ond yn cael ei ddefnyddio hefyd i ariannu costau staffio eraill, megis costau teithio a chostau offer swyddfa a deunyddiau, mae'r Bwrdd wedi addasu'r gyfran sy'n cael ei gwario ar gyflogau yn ôl y mynegai ASHE, a gweddill y lwfans yn ôl CPI. Rhoddodd hyn gynnydd cyffredinol o 3.86 y cant yn 2020-21 ac 1.94 y cant yn 2021-22.

## 6.3. Trafodaeth y Bwrdd

**6.3.1.** Trafododd y Bwrdd a yw'r Lwfans yn parhau i fod yn briodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Yn unol â bwriad y Bwrdd i gynnal cysondeb ar draws y lwfansau y mae'n eu pennu, ac i alluogi pleidiau gwleidyddol i dalu costau codiadau cyflog staff cymorth, cytunodd y Bwrdd y dylai'r Lwfans gynyddu. Cytunodd y Bwrdd ymhellach y dylid mabwysiadu'r un fethodoleg ag a ddefnyddiwyd y llynedd ar gyfer cynyddu cyfanswm gwerth y lwfans, er mwyn sicrhau'r canlynol:

- bod cyfanswm yr hyn sy'n cael ei wario ar gyflogau (86.3 y cant o gyfanswm y lwfans) yn cael ei gynyddu yn ôl cyfradd mynegai ASHE, sef 0.4 y cant.
- bod gweddill y lwfans (13.7 y cant) yn cael ei addasu yn ôl cyfradd CPI Medi 2021, sef 3.1 y cant.

**6.3.2.** Byddai cynnig y Bwrdd yn golygu y bydd cyfanswm gwerth y lwfans ar gyfer 2022-23 yn cael ei gynyddu 0.77 y cant i £1,026,290 (o'r ffigur £1,018,450 sydd wedi bod ar waith ers dechrau'r Chweched Senedd). Byddai gan unrhyw blaid wleidyddol nad yw wedi'i chynrychioli yn Llywodraeth Cymru, gyda thri neu fwy o Aelodau, hawl i gael lwfans gweinyddu craidd o £55,820 yn 2022-23 (o'i gymharu â £55,390 yn 2021-22). Byddai gan unrhyw blaid wleidyddol a gynrychiolir yn Llywodraeth Cymru hawl i gael lwfans gweinyddu craidd o £11,280 fesul Aelod hyd at uchafswm o £169,080 yn 2022-23 (o'i gymharu â £11,190 a £167,790 yn 2021-22). Byddai'r balans sy'n weddill yn cael ei ddyrannu'n gyfartal fesul pen ymysg yr holl Aelodau nad yw eu pleidiau wedi eu cynrychioli yn Llywodraeth Cymru.

**6.3.3.** Yn ystod y cyfnod pan oedd y Bwrdd yn paratoi ar gyfer ei Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad, cyhoeddodd Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru y Cytundeb Cydweithio. Ar 15 Rhagfyr, ysgrifennodd y Bwrdd at yr Aelodau i nodi'r canlynol:

- ei fod wedi nodi'r dystiolaeth gyfreithiol a gyhoeddwyd gan y Llywydd nad yw Plaid Cymru, at ddibenion y Penderfyniad, yn cael ei hystyried yn blaid sydd â chynrychiolaeth yn y Llywodraeth, ac felly nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau ar unwaith mewn perthynas ag arweinydd Plaid Cymru a'r cymorth sydd ar gael i'r blaid drwy'r Penderfyniad;
- bod y Cytundeb Cydweithio yn drefniant gwleidyddol newydd i'r Senedd sy'n codi nifer o gwestiynau i'r Bwrdd, gan gynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â rôl yr Aelod(au) Dynodedig ac effaith y Cytundeb ar y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol, a bod y Bwrdd yn cadw'r hawl i gynnig diwygiadau i'r Penderfyniad (yn amodol ar ymgynghoriad) i newid lwfansau os yw tystiolaeth yn dangos bod yn rhaid gwneud hyn;
- bod angen rhagor o amser a gwybodaeth ar y Bwrdd cyn gallu dod i gasgliadau am effaith y Cytundeb Cydweithio ar ddarpariaethau o fewn y Penderfyniad a'i bod yn bwysig bod y Bwrdd yn gallu ystyried yn ofalus y dystiolaeth mewn perthynas â'r materion hyn;

- bod y Bwrdd eisoes wedi ymrwymo i adolygu'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol yn ystod tymor y Senedd hon, ac y bydd ei drafodaethau ar oblygiadau'r Cytundeb Cydweithio yn llywio'r gwaith hwnnw.

**6.3.4.** Fel bob amser, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ymgysylltu â phleidiau'r Senedd er mwyn ffurfio barn wybodus. Yng ngoleuni'r ffactorau a amlinellir yn y paragraff blaenorol, bydd unrhyw gynigion sy'n codi o ganlyniad i ystyriaeth y Bwrdd o effaith y Cytundeb Cydweithio ar faterion o fewn y Penderfyniad yn destun ymgynghoriad ar wahân.

**Cynnig 10:** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol yn 2022-23 0.77 y cant. Bydd hyn yn golygu cynyddu cyfanswm y lwfans o £1,018,450 yn 2021-22 i £1,026,290 yn 2022-23.

## 7. Materion eraill

### 7.1. Mesurau diogelwch gwell ar gyfer prif gartref Aelod

**7.1.1.** Mae'r Penderfyniad yn nodi, yn amodol ar y gofynion gwerth am arian a rhesymoldeb cyffredinol, y bydd y Bwrdd yn ariannu gwelliannau diogelwch<sup>3</sup> yn swyddfeydd yr Aelodau, yn eu cartrefi eu hunain ac, yn achos Aelodau sy'n byw yn yr "ardal allanol", eu llety preswyl yng Nghaerdydd. Caiff diogelwch yr Aelodau a'u staff ar Ystad y Senedd ei ariannu a'i reoli'n ganolog gan Gomisiwn y Senedd.

**7.1.2.** Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, mae'r Penderfyniad yn darparu, pan fo tîm Diogelwch y Senedd yn argymhell bod angen mesurau diogelwch gwell mewn swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol neu lety preswyl yng Nghaerdydd ar gyfer Aelodau "ardal allanol", bod y costau hyn yn cael eu talu gyda chronfeydd canolog y Penderfyniad. Pan wneir argymhellion tebyg mewn perthynas â phrif gartref Aelod, maent yn ddarostyngedig i'r broses treuliau eithriadol (paragraff 2.4.1A).

**7.1.3.** Ar ôl ystyried diogelwch corfforol a seiber yr Aelodau yn ei gyfarfod ar 25 Tachwedd 2021, mae'r Bwrdd o'r farn y dylid diwygio'r Penderfyniad i sicrhau, pan fo Diogelwch y Senedd yn argymhell bod angen mesurau gwell ynghylch diogelwch corfforol ym mhrif gartref Aelod, na ddylent fod yn ddarostyngedig i'r broses treuliau eithriadol. Yn hytrach, roedd y Bwrdd o'r farn y dylid trin argymhellion o'r fath yn yr un modd â'r rhai sy'n ymwneud â swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol a llety preswyl yng Nghaerdydd ar gyfer Aelodau "ardal allanol".

**7.1.4.** Er bod y Bwrdd yn ymgynghori ar y mater hwn ar gyfer Penderfyniad 2022-23, mae wedi nodi'n glir y dylid dehongli paragraff 2.4.1A o'r Penderfyniad fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd fel un sy'n rhoi "rhagawdurdodiad" ar gyfer costau argymhellion a wnaed gan dîm Diogelwch y Senedd. Byddai Aelod, felly, yn gallu gwneud cais am ad-daliad ar gyfer mesurau angenrheidiol i wella diogelwch yn ei brif gartref heb orfod dilyn y broses treuliau eithriadol.

**Cynnig 11:** Mae'r Bwrdd yn cynnig diwygio'r Penderfyniad fel nad yw gwelliannau diogelwch i brif gartref Aelod, a argymhellir fel rhai gofynnol gan dîm Diogelwch y Senedd, yn cael eu trin o dan y broses treuliau eithriadol (paragraff 2.4.1A). Yn hytrach, mae'r Bwrdd yn cynnig eu bod yn cael eu trin yn yr un modd â gwelliannau diogelwch i swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol neu lety preswyl yng Nghaerdydd ar gyfer Aelodau "ardal allanol", a argymhellir fel rhai gofynnol gan dîm Diogelwch y Senedd.

---

<sup>3</sup> Mae gwelliannau'n mynd y tu hwnt i waith cynnal a chadw arferol neu gynnal a chadw rheolaidd.

## 7.2. Newidiadau nad ydynt yn destun ymgynghoriad

**7.2.1.** Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd, cyn cyflawni unrhyw o'i swyddogaethau, ymgynghori â'r rhai y mae ei benderfyniadau yn debygol o effeithio arnynt, oni bai bod y Bwrdd yn ystyried bod amgylchiadau yn ei gwneud yn amhriodol gwneud hynny.

**7.2.2.** Mewn perthynas â'r ddau fater isod, mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad nad yw ymgynghori'n briodol. Serch hynny, at ddibenion tryloywder, mae ei gynlluniau mewn perthynas â'r materion hyn i'w gweld isod ar gyfer y cofnod cyhoeddus.

### Costau teithio partneriaid a phlant

---

**7.2.3.** Mae adran 5.18 o'r Penderfyniad yn darparu i Aelod hawlio am gost ei bartner a/neu unrhyw blentyn o dan 18 oed sy'n gwneud taith rhwng Caerdydd ac etholaeth/rhanbarth neu brif gartref yr Aelod. Mae diffiniad partner ar gyfer y ddarpariaeth hon wedi'i amlinellu ym mharagraff 5.18.3 fel: "priod; partner sifil yn unol â'r diffiniad yn Neddf Partneriaeth Sifil 2004; person sy'n byw gyda'r Aelod fel priod neu bartner sifil ac sydd wedi'i enwebu mewn ysgrifen i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau fel partner yr Aelod".

**7.2.4.** Yn nyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Brewster (a oedd yn ymwneud â chynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus y DU), dyfarnwyd bod defnyddio ffurflenni enwebu yn gwneud gorfodi hawliau'n anoddach i hawlwy'r di-briod nag i gyplau priod, ac na ellir ei gyfiawnhau.

**7.2.5.** Yn ddiweddar mae'r Bwrdd wedi rhoi cyfarwyddyd y dylid gwneud newidiadau i Reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau er mwyn dileu gofyniad o'r fath i Aelod enwebu partner mewn ysgrifen, gan y gallai hyn fod yn wahaniaethol.

**7.2.6.** Er mwyn osgoi unrhyw bryder sy'n ymwneud â gwahaniaethu yn y cyd-destun hwn, mae'r Bwrdd wedi cytuno i ddileu'r gofyniad yn nhrydydd pwynt bwled paragraff 5.18.3 o'r Penderfyniad i Aelod enwebu mewn ysgrifen berson sy'n byw gydag ef neu hi fel priod neu bartner sifil.

**7.2.7.** Gan fod y penderfyniad hwn yn codi o ganlyniad i ddyfarniad y Goruchaf Lys, yn dileu anghydraddoldeb posibl, ac yn lleihau'r baich gweinyddol ar Aelodau, mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad bod y rhain yn amgylchiadau sy'n caniatáu i'r Bwrdd ddod i'r casgliad y byddai'n amhriodol ymgynghori. Mae hyn yn gyson â'i benderfyniad i beidio ag ymgynghori mewn perthynas â diwygio Rheolau'r Cynllun Pensiwn yn yr un cyd-destun.

## **Diwygiadau amrywiol**

---

**7.2.8.** Fel rhan o adolygiad blynyddol y Bwrdd, nodwyd rhai gwallau teipograffyddol a phwyntiau i egluro iaith nad ydynt yn effeithio ar gyd-destun, ystyr neu ddehongliad y Penderfyniad, er enghraifft, croesgyfeiriadau anghywir. Bydd y Bwrdd yn cywiro'r gwallau hyn yn y Penderfyniad diwygiedig ar gyfer 2022-23, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch diangen. Mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad y byddai'n amhriodol ymgynghori ar newidiadau o'r math hwn, fodd bynnag – at ddibenion y cofnod cyhoeddus – bydd rhestr o newidiadau yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Penderfyniad diwygiedig ar gyfer 2022-23.



## 8. Cydraddoldeb

**8.1.1.** Er mwyn llywio ei asesiad effaith o ran cydraddoldeb ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, byddai'r Bwrdd yn falch o glywed eich barn ar y pwyntiau a ganlyn:

- a allai'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon fod ag unrhyw oblygiadau i bobl sy'n uniaethu ag unrhyw nodweddion gwarchoddedig;
- a allai'r materion a godwyd gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael effaith, neu effaith bosibl, ar bobl sy'n uniaethu â'r nodweddion gwarchoddedig fel y cânt eu diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**8.1.2.** Sylwer mai'r nodweddion gwarchoddedig a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

